# Cymhwyso, gosod a thynnu rhwymau a charthenni ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cymhwyso, gosod a thynnu dillad ceffylau a allai gynnwys rhwymau teithio, stabl, ymarfer a chynffon. Mae hefyd yn cynnwys cymhwyso, gosod a thynnu carthenni ceffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. dewis, cymhwyso a gosod rhwymau ceffylau addas gyda chlustogau amddiffynnol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. dewis, cymhwyso a gosod rhwymau cynffon ceffylau, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. gwirio esmwythdra a diogelwch rhwymau ceffylau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben
6. tynnu, rholio a storio rhwymau ceffylau
7. dewis, cymhwyso a gosod carthenni ceffylau addas yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. adnabod a thynnu unrhyw garthenni neu rwymau sydd wedi eu gosod yn wael yn ddiogel ac yn gywir
9. tynnu carthenni ceffylau, eu plygu a'u storio, yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. y rhesymau dros gymhwyso a gosod rhwymau stabl, teithio, ymarfer neu gynffon ceffylau
4. peryglon rhwymo anniogel
5. y mathau gwahanol o garthenni ceffylau a'u cymhwyso ar gyfer defnydd o dan do ac awyr agored
6. egwyddorion gosod a mesur carthenni ceffylau yn cynnwys strapiau coesau
7. canlyniadau carthenni ceffylau wedi eu gosod yn wael
8. pwysigrwydd glanhau carthenni a rhwymau ceffylau a'u storio mewn cyflwr da
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth perfformiad ar gyfer gosod a thynnu:

- rhwymau coesau
- rhwymau cynffon
- amrywiaeth o garthenni dan do ac awyr agored

## Geirfa

Rhwymau ceffylau:

- teithio
- stabl
- ymarfer
- cynffon

Cymhwyso, gosod a thynnu rhwymau a charthenni ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq205 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; dillad; rhwymau; carthenni |